Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF) 2025-26

**Dyddiad:** 27 Tachwedd 2025

**Cyfeirnod:** Medr/2025/32

**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch

**Ymateb erbyn:** 31 Mawrth 2026

**Rhagor o wybodaeth:** Hayley Moss | ymchwil@medr.cymru


**Crynodeb:**

Mae Medr wedi derbyn cyllid gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) i gefnogi gweithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) o fewn sefydliadau addysg uwch (SAUau) cymwys yng Nghymru 2025/26. Mae'r cyhoeddiad hwn yn egluro sut y caiff y cyllid ei ddyrannu i'r SAUau.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Rhagair

1. Mae'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) wedi cadarnhau y bydd yn darparu £1,182,247 i ariannu Dyfarniadau Cefnogi Sefydliadau ar ffurf Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) o dan y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

## Defnydd o'r cyllid

2. Ni cheir ond defnyddio'r cyllid grant a ddarperir o dan yr ISPF i ariannu gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r ODA, fel y diffinnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gyda'r prif ddiben o dargedu llesiant a datblygiad economaidd gwledydd sydd ar restr derbynwyr Pwyllgor Cymorth Datblygu'r OECD. Yn unol â pholisi DSIT, ni cheir defnyddio'r cyllid i gyflawni gweithgareddau sydd oddi mewn i Tsieina, mewn partneriaeth â Tsieina, neu a fyddai o fudd i Tsieina mewn unrhyw ffordd arall.

3. Rhaid i weithgareddau a ariennir drwy Grant Cefnogi Sefydliadau (ODA) yr ISPF i Sefydliadau hefyd gadw at y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cyllid ODA y DU:
    - Deddf Datblygu Rhyngwladol 2002 fel y'i diwygiwyd
    - Deddf Datblygu Rhyngwladol (Cydraddoldeb Rhywiol) 2014. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gymorth "fod yn debygol o gyfrannu at leihau tlodi mewn modd sy'n debygol o gyfrannu at leihau anghydraddoldeb rhwng personau o wahanol rywedd".

4. Mae'r cyllid yn darparu cyllid sefydliadol hyblyg y gellir ei ddefnyddio'n strategol i gefnogi Gweithgareddau ODA cymwys. Gall hyn gynnwys ategu gweithgarwch yr ISPF a ariennir drwy bartneriaid cyflawni eraill, neu drwy roi cefnogaeth uniongyrchol i ymchwil sy'n trafod y problemau o flaen gwledydd sy'n datblygu nad yw'n erbyn cyllid drwy grantiau'r ISPF na phartneriaid cyflawni eraill.

5. Mae’r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg yn disgwyl y bydd dyraniadau grant cymorth sefydliadol y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol ar gyfer 2025-26 yn cael eu gwario erbyn **31 Mawrth 2026**. Gellir ôl-ddyddio cyllid i 1 Ebrill 2025.

6. Gall sefydliadau ddefnyddio’r cyllid hwn i gefnogi gweithgarwch sy’n digwydd ar ôl 31 Mawrth 2026, ar yr amod bod hynny yn unol â rheolau a gweithdrefnau cyfrifyddu’r sefydliad ac y bydd y gwariant yn cael ei gofnodi ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Dylai gweithgareddau fod wedi’u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2026.

7. Ceidw Medr yr hawl i adfer unrhyw ran o ddyraniad SAU nad yw’n cael ei gwario ar weithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol a bydd unrhyw gyllid a gaiff ei adhawlio yn y ffordd yma’n cael ei ddychwelyd at yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg.

**Dyraniadau**

8. Dyrennir cyllid ar sail cyllid ODA a dderbyniwyd gan SAUau yn y gorffennol, gan gynnwys y Gronfa Ymchwil Heriau Byd-eang (GCRF) a Chronfa Newton, yn ogystal â grantiau cystadleuol Cyngor Ymchwil UKRI na chawsant eu dynodi'n ODA yn wreiddiol ond y cafwyd yn ddiweddarach eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer ODA. Darparwyd data gan UKRI yn 2023/24.

9. Gan y byddai dyraniad pro rata uniongyrchol yn arwain at ddyraniadau bach mewn rhai achosion, mae Medr wedi penderfynu na fydd ond yn darparu cyllid i'r sefydliadau hynny a fyddai'n derbyn dyraniad blynyddol isafswm o £50k, gweler **Atodiad A**. Mae hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer dyraniadau blaenorol y GCRF (gweler cylchlythyr W18/02HE CCAUC) ac yn rhoi cyfrif am y gorbenion gweinyddol posibl er mwyn rheoli gweithgareddau ODA.

10. Bydd dyraniadau sefydliadol ar gyfer 2025/26 yn cael eu talu ym mis **Tachwedd 2025**.

**Trefniadau monitro**

11. Bydd yn ofynnol i SAUau sy'n derbyn cyllid gadw cofnodion priodol yn manylu ar y gweithgareddau a gefnogwyd, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth ag ODA.

12. Mae Medr wedi darparu templed monitro (**Atodiad B**) sy'n cynnwys:
    - Teitl y prosiect
    - Crynodeb byr o weithgareddau unigol
    - Rhestr derbynwyr Pwyllgor Cymorth Datblygu'r OECD. Y gwledydd dan sylw, gan gynnwys unrhyw bartneriaid ar restr y Pwyllgor Cymorth Datblygu a heb fod ar y rhestr honno.
    - Cadarnhad bod y gweithgaredd yn cydymffurfio ag ODA fel y'i diffinnir gan yr OECD
    - Dyraniad cyllidebol ar gyfer pob gweithgaredd
    - Adroddiad cynnydd byr
    - Deilliannau'r prosiect

13. Mae'n ofynnol i SAUau gyflwyno eu ffurflenni monitro i Hayley Moss, ymchwil@medr.cymru erbyn **31 Mawrth 2026**.

14. Gall DSIT dderbyn ymholiadau ad hoc gan y Swyddfa Dramor, Y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), y Fenter Tryloywder Cymorth Rhyngwladol (IATI) neu'r OECD. Os oes angen rhagor o wybodaeth, disgwylir i SAUau weithio gyda Medr i ymateb i ymholiadau gan DSIT am ddata ychwanegol.

15. Gall DSIT gynnal gwiriadau ar hap i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cymhwysedd ODA. Bydd y gwiriadau hyn yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y gwerth a geir gan y sefydliad. Bydd DSIT yn pennu'r wybodaeth sydd ei hangen a'r broses ar gyfer dewis sefydliadau, gyda chefnogaeth gan Medr. Gall Medr hefyd gasglu gwybodaeth am astudiaethau achos i ddangos effaith gweithgareddau a gyllidir. Mae Medr ar hyn o bryd yn gweithio gyda DSIT i gwblhau gofynion monitro

pellach a bydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i sefydliadau cyn gynted ag y bydd unrhyw rwymedigaethau ychwanegol wedi'u cadarnhau.

### Asesu effaith

16. Fel perchennog y gronfa, DSIT sy'n gyfrifol am asesu effaith. Nid ydym wedi nodi effeithiau andwyol posibl na gwahaniaethu yn ein rheolaeth ar y gronfa.

### Trefniadau talu

17. Bydd cyllid yn cael ei ddarparu i SAUau drwy un taliad ym mis **Tachwedd 2025**.

### Rhagor o wybodaeth

18. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Moss (ymchwil@medr.cymru).

## Atodiad A

**Cronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol – Dyraniadau i Sefydliadau 2025/26**

| Sefydliad | Dyraniad ISPF 2025/26 |
|---|---:|
| Prifysgol Aberystwyth | £225,284 |
| Prifysgol Bangor | £306,838 |
| Prifysgol Caerdydd | £366,378 |
| Prifysgol Abertawe | £283,748 |
| **Cyfanswm** | **£1,182,247** |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**